

@Trysor 2015 - blwyddyn arall o drydaru...
@Trysor 2015 - another year of tweeting...



@Trysor Ionawr 19
 Hunlun i ddathlu ymweliad fonitro olaf David Leighton (Canol) @RCAHMWales i nodi ein arolwg olaf yn yr #uwchdiroedd @Trysor January 19
 A selfie with David Leighton @RCAHMWales to mark our last monitoring visit with him on our last ever #uplands survey



@Trysor · Chwefror 2
 Dechre'r dydd gyda jobyn bach lawr yng Nghastell Maenorbŷr, hen gartre Gerallt Gymro.
 @Trysor · February 2
 Started the day with a small bit of work down at Manorbier Castle, once home to Giraldus Cambrensis.



@Trysor · Chwefror 9
 Ymweliad olaf â Rhobell Fawr ei hun - mae'r golygfa'n wych. Tai hirion a chorlannau ymhobman @RCAHMWales @croesoeryri
 @Trysor · February 9
 Last visit to Rhobell Fawr itself today - great views. Long huts & folds abound @RCAHMWales @visitsnowdonia



@Trysor Ebrill 16
 # Archaeolegwyr blaengar gwledydd Prydain wedi dod yn llu i ClfA2015 yng Nghaerdydd. Ardderchog!
 @Trysor April 11
 Professional archaeologists from the nations of Britain have come in great numbers to #ClfA2015 in Cardiff this week!



@Trysor Mai 29
 Mwynglawdd Cae Conroy, Llanbryn-mair
 @Trysor May 29
 Cae Conroy Lead Mine, Llanbryn-mair



@Trysor Mehefin 26 Jenny Hall yn siarad am dirwedd Pwerdy Trawsfynydd Ysgol Unddydd #ClfACymru
 @Trysor June 26 Jenny Hall talking about the landscape around Trawsfynydd Power Station @ClfAWales Day School.



@Trysor Gorff. 13 Cawsom ddiwrnod hyfryd a chwmni da wrth arwain taith gerdded ym mryniau Elenydd ddoe @Trysor July 13 We had good weather and great company for our guided walk in the Elenydd hills yesterday



@Trysor Gorff.30 Wedi achub ar gyfle i ymweld â Gwaith Calch Llanymynech ar y ffin rhwng siroedd #Maldwyn ac Amwythig. Werth ei weld!
 @Trysor July 30 Took the opportunity to visit the Llanymynech Lime Works on the Powys/Shropshire border.



@Trysor Medi 25 Wedi cael cyfle i werthfawrogi eglwys Siorsiadd Bwcle, Sir y Fflint wrth basio. Adeiladwyd eglwys Mathew Sant yn 1822
 @Trysor Sep 25 Had the chance to appreciate Buckley's Georgian parish church, Flintshire in passing. St. Matthews was built in 1822.



@Trysor Rhagfyr 7 Paul yn gwneud cyfweiliad ar gyfer newyddion S4C ac yn trafod sut wnaeth cerrig gleision Preseli gyrraedd Côr y Cewri.
 @Trysor December 7 Paul being interviewed for the S4C news regarding how Preseli bluestones got to Stonehenge.

trysor NADOLIG 2015 CHRISTMAS 2015



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb! Roedd 2015 yn gymysgaeth o fenter, mwynhad a thristwch, wrth i ni fentro i feysydd newydd, gweld hen brosiectau yn dod i ben a hefyd wynebu profedigaeth gyda marwolaeth anamserol John Hall, tad Jenny ym Mis Mai. Roedd John ymhlith ein dilynwyr mwyaf bryd ar Twitter a byddai Jenny yn cael negeseuon bach gyda'i sylwadau bob tro byddem yn drydaru o ryw safle neu'i gilydd. Eleni, rydym wedi dewis noddi trwy ein cardiau Nadolig yw Sefydliad Brenhinol y Badau Achub, hoff elusen John. (Dde; Cofeb Merched Beca, San Clêr, Sir Gaerfyrddin, un o'r safleoedd gwnaethon ni drydaru amdano eleni a fu'n destun rhai o sylwadau edmygus John).

Merry Christmas and a Happy New Year to all! 2015 has been a year of venture, enjoyment and sadness, with new ground being covered, old projects coming to a close and the untimely death of John Hall, Jenny's father in May. John was one of our most loyal followers on Twitter and Jenny would usually receive favourable comments whenever we posted a tweet when out in the field. The charity we have chosen to donate to through this year's Christmas card is the Royal National Lifeboat Institution, John's favourite charity. (Right; The Rebecca Rioters Monument in St. Clears, Carmarthenshire, one of the sites which we tweeted about this year and sparked some of John's admiring comments).



Chwefror 2015 - gweithio yn uchel ar y Rhobell Fawr, ger Llanfachreth, Gwynedd.

February 2015 - working on the upper slopes of Rhobell Fawr, near Llanfachreth, Gwynedd.

Yr olygfa olaf o'r bryniau...

Roedd 2015 yn nodweddiadol fel y flwyddyn olaf o waith maes ar gyfer Menter yr Uwchdiroedd, prosiect sydd wedi rhedeg am 25 mlynedd, yn cofnodi archaeoleg bryniau a mynyddoedd Cymru. Ers 2005 mae Trysor wedi cyflawni 24 o arolygon maes, gan gofnodi yn agos at 10,000 o safleoedd newydd. Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru sydd wedi rheoli'r Fenter o'r cychwyn ac mae'r holl dystiolaeth a gofnodwyd gan ddwsinau o brosiectau bellach yn ffurfio rhan allweddol o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

A final view from the hills...

2015 marked the end of field surveying for the Uplands Initiative, a project which has run for 25 years to record the archaeology of the hills and mountains of Wales. Since 2005 Trysor has completed 24 field surveys and recorded almost 10,000 new archaeological sites. The RCAHMW has managed the Initiative from the outset and all of the evidence recorded by dozens of field projects across Wales now forms an important part of the National Monuments Record of Wales.






Cawsom gyfle eleni i helpu rhoi cais llwyddiannus Ymddiriedolaeth Elan at ei gilydd i sicrhau £1.7 miliwn oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ariannu Prosiect Tirwedd yr Elan. We had the opportunity this year to contribute to putting together the Elan Trust's successful bid for £1.7 million funding from the Heritage Lottery Fund for the Elan Landscape Project.

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau lle buon ni'n gweithio yn ystod 2015. Yn eu plith gwelir nifer o brosiectau dros y ffin yn Lloegr, lle gawsom gyfle i weithio am y tro cyntaf - wedi 10 mlynedd o weithio yng Nghymru'n unig - datblygiad newydd, cyffrous i ni. Maent hefyd yn cynnwys nifer dda o asesiadau ar gyfer ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddiol, yn bennaf yn y de-orllewin a'r canolbarth.

The map below shows the location where we have undertaken work during 2015. Amongst the projects are several in England, where we have worked for the first time - after 10 years of working solely in Wales - an exciting development for us. The list also includes many projects associated with renewable energy developments, mainly in the southwest and mid-Wales.



Ymweliad ag ardal Burnley oedd ein prosiect cyntaf erioed dros y ffin yn Lloegr. Dysgon ni ddau beth. Mae uwchdiroedd Swydd Gaerhirfryn yn debyg i uwchdiroedd rhannau o Gymru ac mae gan Archifdy'r Sir yn Preston staff hynod o gyfeillgar. Our first project over the border in England included a visit to the Burnley area. We learned two things. The Lancashire Uplands are similar to those in parts of Wales and the County Archive in Preston has exceptionally friendly staff!




Ym Mis Mehefin gawsom y pleser o ymweld â phentre bach Alberbury yn Swydd Amwythig a chyfle i ymweld ag eglwys hynafol y plwyf hwnnw, sydd a'i gwreiddiau yn y cyfnod Sacsonaidd. During June we had the pleasure of visiting the small village of Alberbury in Shropshire, and a chance to visit its ancient parish church, which has origins in Saxon times.



Roedd un ymweliad â Geredigion, ynglŷn â mater cynllunio, wedi ein harwain ni i ardal gwaith mwyn Bwlchglas. Saif hen ffermdy Cwm Nant Tŷ gerllaw, sydd wedi ymddangos yng nghyfres ditectif poblogaidd "Y Gwyll" ar S4C ers hynny.

One visit to upland Ceredigion for a planning matter found us near Bwlchglas Lead Mine. An old farmhouse nearby, Cwm Nant Ty, was soon to feature as a location in the popular S4C detective series "Hinterland!"




Rhwng 2005 a 2015 rydym wedi cyflawni 24 o arolygon ar uwchdiroedd ein gwlad, dros 515 cilomedr sgwâr o dir, gan gofnodi dros 9,500 o safleoedd archaeolegol newydd. Dim yn wael i gwmni bach ni!

Between 2005 and 2015 we have completed 24 field surveys on the Welsh uplands, covering some 515 square kilometres of land and recording over 9,500 new archaeological sites. Not too bad for our little company!



Ym Mis Mai buon ni lawr ym Mawdlam, ger Porthcawl, ar gyfer briff gwylio. Cawsom gyfle i ymweld ag eglwys y plwyf yno a chael ein hatgoffa am dreftadaeth ddiwydiannol y fro. Dyma garreg fedd un o'r 89 glöwr a fu farw mewn ffrwydrad Glofa'r Morfa, Port Talbot yn 1890.

In May we undertook a watching brief in Mawdlam, near Porthcawl and had a chance to visit the parish church and be reminded of the industrial heritage of the area. Here is the grave of one of the 89 colliers killed in the Morfa Pit Explosion, Port Talbot in 1890.



Drafft o'r panel gwnaethon ni ar y cyd gyda Phil Wait Design a Chymdeithas Treftadaeth Ystradgynlais ar gyfer pentre Penrhos, Powys eleni. A draft of the panel we did jointly with Phil Wait Design for Ystradgynlais Heritage Society for Penrhos village, Powys this year.